PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**COFNODION**
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd**
**17 Ionawr 2023, 10.30am i 11.30am**

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd Jane Dodds AS bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS. Nodwyd ymddiheuriadau.

2. **Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal ledled Cymru – Amy Bainton & Ceri Evans, Barnardo's Cymru**

Dechreuodd Amy drwy gyflwyno yn gryno y cefndir i'w rôl a gwaith Barnardo's Cymru o ran gwasanaethau ar ffiniau gofal. Yna aeth ei chydweithiwr, Ceri Evans, i fwy o fanylion am y prosiect Myfyrio. Soniodd hefyd am ba mor llwyddiannus yw trefniant Partneriaeth Strategol Casnewydd, sy'n cynnwys gwasanaethau teulu; y prosiect Babi a Fi; cynadledda grŵp teuluol a'r Tîm Ymateb Cyflym.

Mae'r Tîm Ymateb Cyflym yn rhan allweddol o'r bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru. Mae'r tîm hwn yn derbyn atgyfeiriadau lle mae teulu mewn perygl o chwalu, a gallant ymateb o fewn 24 awr i gynnig cymorth i'r teulu er mwyn sefydlogi'r sefyllfa, a lle bynnag y bo modd, cefnogi'r teulu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. Cynigir cefnogaeth ddwys, gan gynnwys gweithio gyda'r teulu bob dydd, lle bo angen. Mae hwn yn brosiect bach gyda thri gweithiwr cymorth i deuluoedd yn gweithredu ochr yn ochr â Hyb Diogelu Cyngor Dinas Casnewydd i ymateb ar unwaith i anghenion teuluoedd.

Mae adroddiadau'r chwarter diwethaf ar waith y Tîm Ymateb Cyflym yn dangos y canlynol:

- Rhwng Gorffennaf a Medi 2022, derbyniodd y Tîm Ymateb Cyflym 24 o atgyfeiriadau. Bu cynnydd bach yn nifer yr atgyfeiriadau o gymharu â'r chwarter blaenorol. Ymgysylltodd pob teulu â'r gwasanaeth Ymateb Cyflym
- Derbyniodd y Tîm Ymateb Cyflym bob atgyfeiriad a wnaed heb fod angen i'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ehangach yn Nghasnewydd orfod fynd ar drywydd unrhyw un ohonynt.

O'r 24 o atgyfeiriadau yn y chwarter diwethaf:

- Mae 9 achos wedi'u cau gyda'r plentyn yn aros yn y cartref gydag aelodau'r teulu
- Mae 3 achos wedi'u symud i'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ar gyfer gwaith tymor hwy

- Mae 12 achos yn parhau ar agor gyda phlentyn yn byw gydag aelodau o'r teulu (roedd pob un o'r plant hyn eisoes yn byw gydag aelodau'r teulu ar adeg yr atgyfeiriad)
- Ar hyn o bryd rydym yn aros i MYST weithio gydag un o'n hachosion agored sy'n gymhleth iawn
- Ni ddaeth unrhyw blant i ofal awdurdod lleol yn ystod cyfnod ymateb cyflym
- Ni fu unrhyw ail-atgyfeiriadau o achosion ymateb cyflym yn ystod y chwarter hwn
- Mae'r arbedion cost posibl i'r awdurdod lleol rhwng £64,800 - £576,000 (mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar ddarpariaeth chwe wythnos o ofal awdurdod lleol, hynny yw yr un faint o amser â'r ymyriad ymateb cyflym)

Mae adroddiadau Barnardo's tu hwnt i'r chwarter unigol hwn yn dangos:

- Dywedodd 100% o deuluoedd y byddent yn argymell y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd i deuluoedd eraill
- Mae'r gwasanaeth Ymateb Cyflym wedi cefnogi 91 y cant (65) o blant a phobl ifanc i aros yn y cartref

Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon, gan gynnwys:

- Yr amser sydd ar gael i weithio gyda theuluoedd. Yn ddelfrydol, mae angen i hyn fod yn hirdymor er mwyn datblygu perthnasoedd a meithrin ymddiriedaeth
- Cyllid cynaliadwy
- Angen ymrwymiad tymor hir gan y llywodraeth

Diolchodd Jane Dodds i Amy a Ceri am eu cyflwyniad a throsglwyddwyd yr awenau i'r Dirprwy Weinidog.

## 3. <u>Ymateb i gyflwyniad Barnardo's gan Julie Morgan AS & Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol</u>

Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei hymrwymiad i'r trydydd sector a'i bod yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau ar ffiniau gofal a'u rôl yn helpu i leihau'n ddiogel nifer y plant sy'n dod i ofal yng Nghymru. Gwnaed argraff arni yn arbennig gan y prosiect Babi a Fi a'r Tîm Ymateb Cyflym.

**Cwestiwn:**
**Sut yn union mae'r Tîm Ymateb Cyflym yn gweithio?**
Nododd Amy eu bod yn dîm bach a dim ond yn gweithio yn ninas Casnewydd. Gallant ymateb ar unwaith heb restrau aros ar hyn o bryd. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu ymddiriedaeth a pherthnasoedd cadarnhaol gyda'r teulu cyfan, fel y gall yr "uned" aros gyda'i gilydd.

**Cwestiwn:**
**A yw'r Tîm Ymateb Cyflym ar gael ledled Cymru?**
Dywedodd Amy a Ceri nad oedden nhw'n siŵr am hyn gan y gallai gwahanol awdurdodau lleol alw eu gwasanaeth wrth enw gwahanol. Soniasant fod gan Ben-y-bont ar Ogwr y prosiect Rise (sy'n rhan o'r Rhwydwaith Myfyrio) a bod RhCT a

Merthyr yn rhoi cynnig ar eu gwasanaethau eu hunain. Codwyd bod angen monitro cysondeb y gwasanaeth os yw'r gwasanaeth am gael ei gyflwyno ledled Cymru.

**Cam i'w gymryd: Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai ei swyddfa yn mynd ar drywydd y sefyllfa o amgylch Cymru a throsglwyddo gwybodaeth i Jane Dodds. Cytunodd hefyd i roi'r ffigurau diweddaraf i'r Cadeirydd o ran nifer y plant mewn gofal yng Nghymru**

Gofynnodd Jane Dodds i aelodau'r grŵp a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.

**Cwestiwn – Cath Lewis, Cŵn Tywys Cymru:**
**Ydych chi'n gweithio gydag unrhyw deuluoedd sydd â phlant anabl, oherwydd efallai bod ganddyn nhw anghenion gwahanol?**
Cadarnhaodd Ceri fod angen ystyried y materion hyn.

Diolchodd Jane Dodds i'r Dirprwy Weinidog am fod yn bresennol ac am gymryd yr amser i ddarganfod mwy am y gwaith da sy'n digwydd ar hyn o bryd. Soniodd hefyd am y themâu ar gyfer cyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol a byddai'n falch pe bai'r Dirprwy Weinidog yn mynychu cyfarfodydd yn ymwneud â'r 1001 o Ddiwrnodau a/neu Dlodi Plant yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hoffi hynny.

4. **<u>Y Rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl, Jade Irwin & Liz Bryan, Y Rhwydwaith Maethu</u>**

Cyflwynodd Jade ei sleidiau i'r grŵp a rhoddodd wybodaeth fanwl am y prosiect Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl, sydd yn llwyddiannus iawn a sydd â gofalwyr maeth yn greiddiol iddo yng Ngogledd Iwerddon, a chynlluniau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yng Nghymru. Gweler y sleidiau sydd ynghlwm.

**Cwestiwn – Jane Dodds:**
**A oes yna unrhyw ofalwyr maeth cyflogedig yn ymwneud â'r rhaglen?**
Cadarnhaodd Jade bod hyn yn wir a'u bod yn dilyn dwy ffrwd o waith - seibiannau gofal tymor byr a mentora/cefnogi teuluoedd.

**Cwestiwn – Jane Dodds:**
**A fydd y rhaglen hon yn cael ei chyflwyno ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru?**
Cadarnhaodd Sarah Thomas o'r Rhwydwaith Maethu eu bod ar hyn o bryd yn derbyn Datganiadau o Ddiddordeb gan awdurdodau lleol ac yn trafod ymhellach. Maen nhw'n gobeithio cael un awdurdod lleol o Ogledd Cymru ac un o'r De, gydag anghenion gwahanol ac o dan bwysau gwahanol, a gweithredu'r cam cyntaf o fis Ebrill 2023.
Mae is-bennawd bachog yn cael ei ddefnyddio gan y rhaglen ar hyn o bryd a gofynnodd Jane Dodds bod un tebyg yn cael ei greu yn Gymraeg. Cadarnhaodd Sarah fod hyn ar y gweill ac maent yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Diolchodd Jane i aelodau'r Rhwydwaith Maethu am gyflwyno a gofynnodd am ddiweddariadau ar y gwaith hwn.

5. **<u>Rhaglen Eiriolaeth i Rieni, Daljit Kaur Morris & Nadia Lovell, NYAS Cymru</u>**

Cyflwynodd Nadia sleidiau i aelodau'r grŵp a chadarnhaodd fod eu Rhaglen Eiriolaeth i Rieni yn mynd rhagddo'n llwyddiannus. Dim ond yng Ngwent y mae'n gweithredu ar hyn o bryd, ond dengys ystadegau ei fod yn gweithio'n gadarnhaol i leihau nifer y plant yn y sir honno sy'n cael eu rhoi mewn gofal.

Mae gwerthusiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr Athro Clive Diaz o CASCADE, Prifysgol Caerdydd ac mae rhagor o wybodaeth ar gael **yma**.

Cadarnhaodd Jackie Murphy o TGP Cymru eu bod yn gweithio gyda NYAS i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth i rieni yn cael eu cyflwyno ledled Cymru. Maent wedi cael cyllid yn ddiweddar gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i weithio gyda theuluoedd du a lleiafrif ethnig.

**Cwestiwn – Jane Dodds:**
**Mae'n ddiddorol iawn gennyf fod y rhaglen yn gallu tynnu teuluoedd yn ôl o'r gweithdrefnau Cyn-achos a'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Oes yna unrhyw gysylltiadau yn cael eu gwneud â Rheolwyr Dilyniant Gofal?**
Dywedodd Nadia nad oes cysylltiad ar hyn o bryd, ond byddai cysylltiad yn fuddiol iawn.

**Cwestiwn – Jane Dodds:**
**Sut mae'r gwaith yn cael ei ariannu?**
Cadarnhaodd Nadia fod y gwaith yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i fod wedi'i ymestyn i 2025.

## 6. Unrhyw faterion eraill

Cadarnhaodd Jane Dodds fod hwn wedi bod yn gyfarfod llwyddiannus iawn, gyda chyflwyniadau arloesol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gadw plant yng Nghymru allan o'r system ofal trwy wasanaethau ar ffiniau gofal. Bydd holl sleidiau'r cyflwyniadau yn cael eu dosbarthu i aelodau'r grŵp a bydd ystadegau pellach gan Lywodraeth Cymru/Maethu Cymru yn dod yn fuan.

Cadarnhaodd Sian Thomas o Gomisiwn y Senedd fod ymgynghoriad ar waith ar hyn o bryd ynghylch gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal. Darllenwch fwy: Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical (senedd.cymru)

Cadarnhaodd Jane Dodds fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y mae hi'n aelod ohono wedi edrych yn ddiweddar ar gyllid a chynaliadwyedd, a'i bod wedi cael sicrwydd bod yr elfen gynaliadwyedd wedi ei chadarnhau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

**Cam i'w cymryd – aelodau'r grŵp i roi gwybod i Jane am unrhyw faterion ariannu y maen nhw'n eu profi ar gyfer unrhyw un o'u prosiectau. Efallai y bydd hi'n gallu cynnig rhywfaint o gymorth. Ebost: jane.dodds@senedd.cymru**

## 7. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

26 Ebrill 2023, 10.30am i 11.30am, cyfarfod hybrid – ystafell yn Nhŷ Hywel ac ar-lein.
Thema: Y 1000 Diwrnod Cyntaf

27 Medi 2023, 10.30am i 11.30am, cyfarfod hybrid – ystafell yn Nhŷ Hywel ac ar-lein.
Thema: Tlodi Plant (ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi)

29 Tachwedd 2023, 10.30am i 11.30am, cyfarfod hybrid – ystafell yn Nhŷ Hywel ac ar-lein.
Thema: Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)